Pypedau

Trosolwg

Helpu'r staff i archwilio sut y gall eu man awyr agored ysbrydoli symudiadau, y dychymyg ac ymholiadau, gan ddefnyddio anifeiliaid pyped fel promptiau ar gyfer chwarae ym myd natur.



Gweithgareddau

Mae pob aelod o staff naill ai'n dewis pyped neu'n cael pyped – y pyped yw llais yr aelod hwnnw o staff a'r pyped sy'n ei dywys.
Mae'r aelod o staff yn cyflwyno'r pyped:
"Myrddin y Mwydyn ydw i, ac rwy'n hoff iawn o bridd tywyll, meddal!"

Mae un person yn galw promptiau a ysbrydolwyd gan wahanol anifeiliaid, ac mae'r staff yn symud o gwmpas y man dan sylw ac yn ymateb mewn cymeriad, e.e. Aderyn – ble y gallwch eistedd fel aderyn?

Offer

- Pypedau neu luniau o anifeiliaid
- Lluniau ar gyfer cardiau promptiau – coeden, pridd, planhigyn

Cwestiynau allweddol ar gyfer y pypedau:

Ble rydych yn byw?
Sut rydych yn cyrraedd eich cartref? Drwy ddringo, cloddio, hedfan?
Beth rydych yn hoffi ei wneud?
Pa le yw eich hoff le i archwilio ynddo?

Deilliannau dysgu

Mae pypedau yn lleihau swildod, yn deffro'r dychymyg ac yn helpu oedolion i weld yr amgylchedd o safbwynt plentyn – yn chwilfrydig, yn chwaraegar ac yn llawn posibiliadau. Archwilio symudiadau corfforol ym myd natur.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Mae'r staff yn creu parau. Mae un aelod o staff yn rhannu problem ar gyfer ei byped, e.e. "Rwy'n fwydyn ac mae'r tir yn rhy sych – ble dylwn i fynd?" Mae'r pâr yn archwilio'r man dan sylw er mwyn dod o hyd i ateb.